Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **29 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Deddfwriaeth Ddomestig

- Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (DU)
- Rheoliadau (CEE) Ffrwythloni Moch yn Artiffisial 1992 (DU)
- Gorchymyn Anifeiliaid (Rheoli ar ôl Mewnforio) 1995 (Cymru, Lloegr a'r Alban)
- Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995
- Gorchymyn Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol 2011 (Cymru a Lloegr)

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Gwneir y diwygiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hwy ac mae testun y ddeddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Diben y diwygiadau**
Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 yn gwneud cywiriadau sy'n caniatáu gweithredu deddfwriaeth genedlaethol a domestig ar ôl i'r DU adael yr UE trwy gyfnewid cyfeiriadau lle bo angen, er enghraifft trwy hepgor y diffiniad o "intra-Area trade" a diffinio "masnach genedlaethol" fel "masnach o fewn Prydain Fawr" a thrwy gyfeirio'n briodol at gyfraith yr UE a gedwir, gan ddefnyddio pwerau o dan y Ddeddf Ymadael. Nid yw'r offeryn yn newid polisi.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-trade-in-animals-and-related-products-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.